

Mae'r trosolwg hwn o'r cwrs yn rhoi crynodeb manwl o'r rhaglen MA Cynllunio ar gyfer Perfformio a gynigir o fis Medi 2019. A fydddech cystal â nodi er bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir hyd yma, gall gael ei haddasu a'i newid mewn blynyddoedd i ddod. Ymgynghorir bob amser â myfyrwyr ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Mae pob blwyddyn o'r cwrs yn werth 120 credyd. Er mwyn symud drwy'r cwrs bydd angen i'r myfyrwyr *fel arfer* lwyddo ym mhob modiwl ac ennill 180 o gredydau.

Mae'r cwrs hwn yn darparu hyfforddiant trylwyr, a gydnabyddir yn broffesiynol, ar gyfer graddedigion sydd â gradd debyg ym maes cynllunio ar gyfer perfformio neu'r rheini sydd wedi gweithio ym myd y theatr a'r diwydiannau cysylltiedig ac sy'n chwilio am hyfforddiant ffurfiol.

Llwybrau Modiwl:

- Perfformio (Cynllunio Set a Gwisgoedd)
- Cynllunio Set
- Cynllunio Gwisgoedd
- Creu Gwisgoedd
- Pypedwaith
- Cynllunio Goleuo
- Cynllunio Sain
- Celf ac Adeiladu Golygfeydd ar gyfer y Llwyfan a'r Sgrin
- Cynllunio Realiti Rhithwir
- Cynllunio Fideo

Ymarfer Cynllunio 1

20 Credyd

Asesiad: Gosodiad a Chyflwyniad Grŵp (10%)
Prosiect Sgîl Arbenigol a Chyflwyniad Terfynol Unigol (40%)
Cyflwyniad Terfynol Prosiect Cynllunio mewn Stiwdio (50%)

Bydd y modiwl yn eich cyflwyno i'r rhaglen cynllunio theatr, a byddwn yn gweithio gyda chi i ymchwilio ac archwilio eich potensial. Byddwch yn gweithio mewn grwpiau gyda'ch cyd-fyfyrwyr ac yn unigol ar dasgau cynllunio er mwyn eich paratoi i weithio ar lefel broffesiynol gydag ystod briodol o sgiliau.

Byddwch hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth feirniadol a myfyriol o'ch gwaith, drwy weithio yn eich maes arbenigol gyda grŵp, gan greu perfformiad cydweithredol.

Cynhelir dosbarthiadau meistr drwy gydol y rhaglen, wedi'u cyflwyno gan ymarferwyr rhyngwladol blaenllaw. Wedi'u bwriadu i ategu eich anghenion astudio unigol, mae'r dosbarthiadau yn datblygu gwerthfawrogiad o ragoriaeth, ymarfer amlddisgyblaeth a chydweithredu ar gyfer perfformiad.

Ymarfer Cynllunio 2

20 Credydau

Asesiad: Proses Gynllunio (40%) a Chyflwyniad Terfynol (60%)

Yn y modiwl hwn byddwch yn ehangu ac yn datblygu eich sail sgiliau ymarferol, methodoleg ymchwilio cymhwysol a hunaniaeth unigol yn eich maes arbenigedd. Drwy gyfrwng dosbarthiadau tiwtorial, byddwch yn llunio briff prosiect yn ymwneud â'ch arbenigedd a bwriedir i herio eich meddylfryd presennol ar arferion cynllunio. Yn dibynnu ar eich maes arbenigedd, byddwch yn

datblygu eich gwaith mewn stiwdio, gweithdy neu amgylchedd theatr. Gallai fod ar ffurf prosiect cysyniadol/gwireddiad, neu rôl o fewn cynhyrchiad a wireddir.

Bydd myfyrwyr yn gweithio gyda staff addysgu o'r Adran Cynhyrchu a Chynllunio a hefyd gydag ymarferwyr a chwmnïau ar ymweliad. Mae hyn yn caniatáu i fyfyrwyr ddefnyddio eu sgiliau, gallu ymchwilio a chynllunio yng nghyd-destun theatr broffesiynol ac ymarfer cynllunio perfformiad. Gall y modiwl hwn hefyd fod ar ffurf lleoliad y tu allan i'r Coleg.

Modiwl Cynhyrchiad wedi'i Wireddu

40 Credyd

Asesiad: Dau Gynhyrchiad wedi'u Gwireddu (20%, 80%)

Bydd y modiwl hwn yn cyflwyno/adeiladu ar eich gwaith cynhyrchiad wedi'i wireddu yn amgylchedd y Coleg ac yn eich paratoi ar gyfer ymarfer proffesiynol annibynnol.

Yn gyntaf, byddwch yn gweithio ar y cyd mewn tîm, gan dderbyn hyfforddiant sgiliau cefnogol, i ddatblygu dealltwriaeth o'r gofynion ymarferol a systemau rheoli sydd ar waith mewn cynhyrchiad proffesiynol. Yna byddwch yn ymgymryd ag uwch rôl o fewn eich maes arbenigedd ar un o gynyrchiadau'r Coleg. Byddwch yn ennill profiad o weithio hyd at lefel broffesiynol, o fewn cyd-destun cymhwyso eich sgiliau penodol ac fel ymarferydd cydweithredol.

Bydd astudiaethau cyd-destunol cefnogol yn ystod y modiwl hwn yn datblygu eich proses o gofnodi, dadansoddi a myfyrio'n feirniadol ar eich ymarfer personol ac ymarfer unigolion eraill er mwyn gwneud cysylltiadau effeithiol rhyngoch chi a phobl eraill fel ymarferwyr.

Os oes gennych gefndir cynllunio theatr gallwch ddewis cyfnewid rhan gyntaf y modiwl am leoliad proffesiynol.

Ymarfer yn y Diwydiant ac Arddangosfa Derfynol

40 Credyd

Asesiad: Arddangosfa Cynllunio (100%)

Byddwch yn creu arddangosfa o'ch gwaith i'w arddangos yng Nghaerdydd a Llundain. Chi fydd yn gyfrifol am gynllunio eich arddangosfa, dewis y gwaith i'w gyflwyno (y byddwch wedi'i greu drwy gydol y rhaglen gradd Meistr), mowntio eich gwaith, a sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno ar lefel broffesiynol. Byddwch hefyd yn cydweithio â myfyrwyr cynllunio eraill i adeiladu a gosod yr arddangosfa gyfan.

Byddwch yn derbyn hyfforddiant cefnogi ymarfer proffesiynol drwy gyfres o weithdai grŵp, darlithoedd a dosbarthiadau tiwtorial yn ymdrin â llunio CV, gohebu â busnesau, cyflwyno portffolio a chyflwyniad i gyfrifyddu.

Portffolio Ymarfer Perfformio

60 Credyd

Asesiad: Portffolio (100%)

Llwybr 1:

Byddwch yn dechrau drwy gofnodi ystyriaeth fyfyril beirniadol o'r broses ymchwil a gwireddiad eich ymarfer, gan weithio mewn cyd-destun proffesiynol o fewn maes creu/cynhyrchu.

Elfen derfynol y llwybr yw cychwyn ar yrfa fel ymarferydd proffesiynol a, dros gyfnod cytunedig o amser, datblygu portffolio o'ch ymarfer gweithio a'ch datblygiad. Byddwch yn derbyn cefnogaeth ymarferol ac academiaidd ac yn cael eich mentora, naill ai ar gampws y Coleg neu drwy ddulliau dysgu o bell. Mae hyn yn caniatáu i chi ddewis cyflogaeth mewn unrhyw ran o'r byd.

Llwybr 2:

Mae'r llwybr amgen hwn yn rhoi cyfle i chi greu prosiect ymchwil sylweddol yn seiliedig ar yr ymarfer yr ydych wedi'i ddewis fel artist annibynnol unigol neu ar ddarn ar y cyd.

Mae'r llwybr hwn yn rhoi cyfle i chi ymestyn eich astudiaeth arbenigol i faes ymarfer, tuag at waith unigol neu ar y cyd mewn gosodiad, arddangosfa a pherfformiad sy'n bodoli y tu allan i gynllunio theatr proffesiynol traddodiadol.

Byddwch yn creu darn datblygedig o ymchwil cyfoes mewn ymarfer creadigol ac yn ei gyflwyno ar ffurf tystiolaeth wedi'i chofnodi, a'i gefnogi gan sylwadau beirniadol a dadansoddol.